ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL/ADDITIONAL LEARNING NEEDS

Os oes gan unrhyw blentyn anawsterau gyda'r cwricwlwm neu os ydynt yn dangos ymddygiad anaddas yn gyson, mae yn bolisi ysgol i siarad gyda'r rhieni yn syth. Mae hyn yn sicrhau y gall gwybodaeth gael ei rhannu a bod yr ysgol a'r rhieni yn gallu gweithio mewn partneriaeth.

Mi fydd Cydlynnydd ADY yr ysgol yn trefnu ac yn monitro effaith unrhyw weithgaredd gyda'r staff penodedig. Rydyn ni eisiau sicrhau fod pob rhiant yn hyderus fod datblygiad a chynnydd eu plentyn yn cael ei fonitro'n ofalus a bod canllawiau pendant ar eu cyfer.

Mi fydd plant sydd â Chynllun Addysgiadol Unigol (CAU) neu Gynllun Ymddygiad Unigol (CYU) yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r athro dosbarth / Cydlynnydd ADY i drafod unrhyw ofidion.

In the event of any pupil experiencing any difficulties in accessing the curriculum or is regularly displaying inappropriate behaviour, it is the policy of the school to inform parents immediately. This is to ensure that information can be shared and that the school and parents can work in partnership.

The child will be assessed and then given strategies which will be appropriate to his/her needs to encourage success and progression. The school's ALNco will co-ordinate and monitor the impact of the initiatives implemented by school-based staff.

We want parents to feel confident that their child's progress is being monitored and that guidance is available to them when needed. Children with a Person Centred Plan will have regular meetings with the class teacher and ALNco and have the opportunity to discuss any issues.

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL/EXTRA CURRICULAR ACTIVITIES

Trefnir gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion sydd yn cynnwys y côr, yr Urdd, Chwaraeon, Clwb Celf a Dysgu Digidol.

Extra curricular activities are provided for all full-time pupils and include choir, Urdd (Welsh club), Sports activities, Art Club and Digital Learning.



CLWB BRECWAST/BREAKFAST CLUB

Mae'r ysgol yn rhedeg Clwb Brecwast rhâd sydd o dan ofalaeth staff yr ysgol. O 8.00 yb ymlaen gall y plant fwynhau brecwast iachus a chwarae gemau. Rhaid i bob plentyn fod yn y clwb erbyn 8.20 yb er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn brecwast. Gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol am unrhyw wybodaeth bellach ac i gofrestri eich plentyn.

The school operates a free Healthy Breakfast club manned by school staff. From 8.00 am onwards pupils are able to enjoy a healthy breakfast and play indoor and outdoor games. Pupils must be dropped off by 8.20 a.m to ensure that they receive a breakfast. Please contact the school if you require any additional information or if you wish to register your child.



CLWB Y DDRAIG / AFTER SCHOOL CLUB

Rydym yn cynnal clwb carco "Clwb y Ddraig" hefyd o fewn yr ysgol. Mae hwn yn cael ei drefnu gan staff yr ysgol o ddiwedd y dydd tan 5.30yh. Mae'r clwb yn codi £10 ar gyfer sesiwn gyda gostyngiad ar gyfer brodyr a chwiorydd. Gofynnwn i chi logi lle a thalu o flaen llaw. Cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth.

The school runs its own after school club "Clwb y Ddraig". This is manned by school-based staff and open from the end of the school day until 5.30pm. The charge is £10 per child per session with a discount for siblings. We ask that sessions are booked and that payment is received in advance. Please contact the school for more information.

RHEOLAU'R YSGOL A DISGYBLIAETH – POLISI PERTHASEDD

"Mae perthnasoedd cadarnhaol mewn ysgolion yn ganolog i les myfyrwyr ac athrawon ac yn sail i amgylchedd dysgu effeithiol."

Mae gennym ddisgwyliadau uchel o ymddygiad gan ein disgyblion ac oedolion a chredwn yn gryf fod pob ymddygiad yn gyfrwng cyfathrebu; ffordd o fynegi emosiwn/emosiynau. Mae ein Polisi Perthnasoedd Cadarnhaol yn sicrhau, o fewn fframwaith o ddisgwyliadau, arferion, hawliau a chyfrifoldebau, ein bod yn arwain, yn annog ac yn addysgu disgyblion i ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â phawb sydd o'u cwrpas sydd yn ei dro yn caniatáu i athrawon addysgu a disgyblion i ddysgu.

Yn lle rheolau'r ysgol, disgwyliwn i bob disgybl ddilyn 'Disgwyliadau Dewi Sant'.

- Byddwch yn barod
- Byddwch yn ddiogel
- Byddwch yn barchus

Mae disgyblion sy'n dilyn 'Disgwyliadau Dewi Sant' ac sydd yn dangos ymddygiad 'Uwch a Thu Hwnt' yn cael eu cydnabod gan bob aelod o staff trwy'r gwobrau canlynol:

- Canmoliaeth lafar
- Carden Cydnabyddiaeth sef Cerdyn post adref/galwadau ffôn – ar gyfer ymddygiad uwch a thu hwnt.
- Bwrdd Brolio yn gysylltiedig ag ymddygiad Disgwyliadau Dewi Sant.
- Gwasanaeth dathlu lle mae disgyblion yn derbyn tystysgrifau Cymry Balch am ei ymdrech i siarad Cymraeg.

Mae gwerthoedd a rheolau'r ysgol yn gysylltiedig â'i gilydd ac mae'r plant yn rhan o'r broses monitro. Mae cydnabyddiaeth a chlod yn rhan bwysig o'm cynlluniau gwobrwyo ac rydyn yn gweithredu'n gyson er mwyn sicrhau fod ymddygiad dda yn cael ei wreiddio ymhob plentyn o'r dechrau. Mae'r system ddisgyblaeth yn gyson ar draws yr ysgol.

Cred yr ysgol bod rhieni'n chwarae rhan hollbwysig yn ymddygiad eu plant. Os bydd plentyn yn methu ag ymateb i'r camau a amlinellir yn y polisi yna bydd y Pennaeth/Dirprwy Bennaeth yn cysylltu â rhieni'r plentyn i drafod y mater gyda nhw.

Mae ein Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth ar gael ar ein gwefan ysgol.

SCHOOL RULES AND DISCIPLINE – RELATIONSHIPS POLICY

“Positive relationships in schools are central to the well-being of both students and teachers and underpin an effective learning environment.”

We have high expectations of behaviour from both our pupils and adults and strongly believe that all behaviour is a means of communication; a way of expressing an emotion/emotions. Our Positive Relationships Policy ensures that within a framework of expectations, routines, rights and responsibilities, we guide, encourage and teach pupils to form positive relationships with all that are around them which in turn, allows teachers to teach and pupils to learn.

Instead of school rules, we expect all pupils to follow the 'The Dewi Sant Way' or 'Disgwyliadau Dewi Sant'.

- Be ready
- Be safe
- Be respectful

Pupils following 'Disgwyliadau Dewi Sant' and who are going 'Above and Beyond' are recognised by all members of staff through the following rewards:

- Verbal praise
- Post Cards home/phone calls home – for 'above and beyond' behaviour.
- Class recognition board (Bwrdd Brolio) linked to Disgwyliadau Dewi Sant behaviours.
- Assembly where children receive Cymry Balch certificates for their effort in speaking Welsh.

The school's values and rules are linked to each other and the children are part of the monitoring process. Recognition and praise are an important part of my reward plans and we act constantly to ensure that good behavior is ingrained in every child from the start. The discipline system is consistent across the school.

The school believes that parents play a crucial part in the behaviour of their children. If a child fails to respond to the steps outlined in the policy then the headteacher/Deputy headteacher will contact the child's parents to discuss the matter with them.

The School Relationships Policy can be found in full on the school website.

GOFAL BUGEILIOL/PASTORAL CARE

Mae pob un o'r athrawon yn gyfrifol am y plant yn eu dosbarthiadau eu hunain. Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb dros y cyfan. Os yw plentyn yn bwrw ei ben, yn dost neu os caiff ddamwain, byddwn yn ceisio cysylltu â'r rhieni trwy ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen gyswllt. Mae'n holl bwysig ein bod ni'n derbyn gwybodaeth gyfoes rhag ofn bydd argyfwng.

Cynhelir dril tân yn dymhorol.

Each class teacher is responsible for the children in his/her class. The Headteacher has the overall responsibility. If a child is ill, hits his/her head or has an accident, then every effort is made to contact parents using the information given to us on the contact form. It is very important that we receive your current information regarding contact numbers should an emergency occur.

A fire drill exercise is conducted every term.

SALWCH A MODDION/ILLNESS AND MEDICINE

Mae'r ysgol yn cadw cofrestr feddygol a dylai rhieni hysbysu'r ysgol am unrhyw anghenion meddygol sydd gan blentyn. Ni ddarperir moddion yn yr ysgol oni bai ei fod wedi'i gofnodi fel rhan o gynllun iechyd wedi'i arwyddo gan y rhiant a'r pennaeth. Dylai unrhyw blentyn sydd yn dioddef o alergeddau/asthma gadw Epipen/pwmp yn yr ysgol a'i ddefnyddio yn ôl y galw.

Os bydd plentyn yn dost/wedi cael ergyd i'r pen yna fe fyddwn yn cysylltu â'r rhiant ac yn gwneud trefniadau iddynt ddod i gasglu'r plentyn. Os yw eich plentyn yn dioddef o unrhyw salwch tymor hir e.e. Asthma, yna rhaid cwblhau'r ffurflen arbennig fel bod aelod o'r staff yn gallu gweinyddu'r moddion.

Oherwydd alergeddau difrifol, nid ydym yn caniatadu CNAU yn yr Ysgol.

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau nad oes eitemau yn cynnwys cnau yn cael eu danfon i'r Ysgol.

The school maintains a medical register and asks that parents inform the school of any medical needs. Medicines such as antibiotics, cough medicine and headache tablets, will not be administered in school unless a health care plan has been signed and agreed with the Head Teacher. Children who suffer from allergies/asthma may keep their Epipen/inhalers in their classrooms and use them as required.

If a child is ill/has hit his/her head, the school will contact the parents and make arrangement for the child to go home. If your child suffers from a long-term illness e.g. Asthma, then you must complete a form giving clear instructions and your permission for a member of staff to administer the medication.

Due to serious allergies, we strive to be a NUT FREE school. We ask for your co-operation in ensuring that no items including nuts are sent into school.

ABSENOLDEBAU / ABSENCES

Mae presenoldeb ysgol yn statudol ar gyfer plant dros 5 oed. Eleni ein targed ysgol yw 95%.

Disgwylir presenoldeb prydlon a rheolaidd ar bob adeg. Mae'n hollbwysig i ddatblygiad addysgiadol yr unigolyn a threfniant yr ystafell ddosbarth a'r ysgol. Mae'n ofynnol i ysgolion cofrestru absenoldeb disgyblion o dan gategoriâu arbennig. e.e. cyrraedd yn hwyr, absenoldeb heb ganiatâd.

Rhaid rhoi gwybod yn syth am absenoldeb plentyn trwy ffonio'r ysgol yr un diwrnod, Gallwch hefyd e-bostio'r ysgol neu mae modd gadael neges ar beiriant ateb yr ysgol.

Os ydy eich plentyn yn cyrraedd yn hwyr, rhaid arwyddo eich plentyn mewn yn y brif swyddfa.

A fydddech cystal â nodi nad oes gan unrhyw rhiant yr hawl i gymryd ei plentyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau yn ystod y tymor ac mae'n rhaid gwneud cais arbennig i'r pennaeth.

Gwobrwyir presenoldeb da yn dymhorol.

School attendance is statutory for children over 5 years of age. This year our school target is 95%.

Punctual and regular attendance is expected at all times. It is crucial to the educational development of the individual and the arrangement of the classroom and the school. Schools are required to register pupils' absence under special categories. e.g. arriving late, absence without permission.

A child's absence must be reported immediately by calling the school on the same day, you can also e-mail the school or you can leave a message on the school's answering machine.

If your child arrives late, your child must be signed in at the main office.

Please note that parents do not have an automatic right to withdraw pupils for holidays while school is in session and parents must make a formal application to the Head Teacher using the agreed form.

Good attendance is rewarded termly.



Y DREFN ACHWYNO/ THE COMPLAINTS' PROCEDURE

Rydym yn gobeithio y bydd eich plentyn yn hapus ac yn datblygu'n dda o fewn yr ysgol. Serch hynny, o bryd i'w gilydd efallai mi fydd problemau yn codi ac fe wnawn ni ein gorau glas i'w datrys.

We hope your child will be happy and progress well in our school. However, from time to time problems may arise and we will do our very best to solve them with you.

Mae ein canllawiau ar gyfer delio â chwynion yn dilyn camau Deddf Llywodraeth Cymru:

- Rydym yn disgwyl i bob plentyn, aelod o staff a rhiant wrando ar ei gilydd yn astud ac yn barchus.
- Gall y rhan fwyaf o gwynion gael eu datrys gan yr athro dosbarth yn yr achos gyntaf. Serch hynny os nad ydych yn gwbl hapus dylid cysylltu â'r pennaeth.
- Dylid esbonio bob achos difrifol yn ysgrifenedig i'r pennaeth fel gall ymchwiliad gymryd lle. Yna mi fydd y pennaeth yn trefnu i gwrdd â rhieni ar adeg gyfleus i geisio datrys achosion.
- Dylai unrhyw gwyn yn erbyn y pennaeth gael ei anfon at Gadeirydd y Llywodraethwyr drwy gyfeiriad yr ysgol.
- Dylai unrhyw riant sydd ddim yn hapus gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr yn ysgrifenedig i olrhain y rhesymau dros ofyn i'r is bwyllgor cwynion i ystyried y cwyn.
- Ymchwiliad is bwyllgor cwynion y llywodraethwyr fydd y cam eithaf.

Am fwy o fanylion edrychwch ar bolisi Cwyno yr ysgol ar ein gwefan www.ysgolgymraegdewisant.co.uk neu mae copi llawn ar gael drwy swyddfa'r ysgol.

Our school procedures for dealing with complaints follow those outlined by Welsh Government and are set out below:-

- We expect all of our pupils, staff and parents to listen carefully and respectfully to each other.
- Most complaints can be dealt with quickly by the class teacher in the first instance. However, if you are not satisfied, then please contact the Headteacher.
- All serious complaints must be explained in writing to the Headteacher so that an investigation can take place. The Head teacher will then meet concerned parents at a mutually convenient time in order to attempt to resolve the matter.
- A complaint against the Headteacher should be made in writing to the Chair of Governors via the school address.
- A parent who is still not satisfied should contact the Chair of Governors in writing setting out the reasons for asking the governing body complaints' committee to consider your complaint.
- The governing body's complaints' committee is the final arbiter of the complaint.

For more information please see our Complaints Policy on the school website www.ysgolgymraegdewisant.co.uk or a complete copy is available via the school.

POLISI CODI TAL/CHARGING POLICY

Mae'r ysgol yn cefnogi Deddf Addysg 1988 sydd yn datgan fod:

- Gan blentyn yr hawl i addysg am ddim.
- Dylai pob gweithgaredd sydd ar gael yn ystod oriau addysgu arferol fod ar gyfer pob plentyn ac ni ddylid gwahardd unrhyw blentyn oherwydd diffyg ei rhieni i dalu'r gost.
- Mae gan yr ysgol yr hawl i ofyn am rhodd gwirfoddol i gefnogi'r gost o unrhyw weithgaredd a drefnwyd gan yr ysgol o fewn neu y tu allan i oriau ysgol.

The school supports the 1988 Education Act, which states that:

- *Children have a right to free school education.*
- *Activities offered wholly or mainly during normal teaching time should be available to all pupils regardless of their parents' ability to meet the cost.*
- *The school has a right to invite voluntary contributions in support of any activity organised by the school, whether during or outside school hours.*

Mae'r ysgol fel arfer yn gofyn am rodd wirfoddol i helpu dalu am unrhyw ymweliad neu weithgaredd. Os nad ydy'r gost wedi'i dalu yn gyfan mae achlysuron pan fydd yr ysgol neu'r Gymdeithas Gyfeillion yn cefnogi.

The school normally asks for a voluntary contribution to cover the price of visits and activities. In the event of a shortfall, the school or PTA may provide a contribution.



POLISI DERBYN PLANT/THE SCHOOL'S ADMISSIONS POLICY

Mae'n bolisi ysgol i dderbyn y plant i'r feithrin ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn dair oed yn dilyn llythyr o gadarnhad o'r Sir. Mae'r plant yna yn symud i'r dosbarth Derbyn ac yn cael addysg amser llawn yn y flwyddyn academaidd y maent yn 5 oed. **Rhaid cofio mai'r Awdurdod Lleol sydd yn gyfrifol am dderbyn y plant ac wedi gwneud ymholiad i'r ysgol dylid gwneud cais i'r Awdurdod er mwyn dechrau yn y Feithrin ac eto wrth symud i'r Dosbarth Derbyn.**

I gael rhagor o wybodaeth am Dderbyniadau Ysgolion, ewch i wefan Bro Morgannwg:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/admissions/School-Admissions.aspx>

*It is school policy to accept pupils into the Nursery as soon as they have had their third birthday following confirmation from the Admissions Department that they have a place. Pupils enter Reception in the September of the academic year in which they are 5. **Please be aware that the Local Authority is the admissions authority and following an enquiry to school, parents must also make an application to the Local Education Authority via the Admissions Department in order to start in the Nursery and again when moving to the Reception class.***

For further information regarding School Admissions please visit the Vale of Glamorgan website:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/schools/admissions/School-Admissions.aspx>



Vale of Glamorgan Council
Cyngor Bro Morgannwg

CYDRADDOLDEB/ EQUALITY

Yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant rydym yn ymrwymedig i sicrhau addysg gyfartal a chyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofaldwyr sy'n cael gwasanaethau gan yr ysgol, ni waeth beth fo'u sefyllfa o ran anabledd, hil, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, statws ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil. Rydym yn amcanu at ddatblygu diwylliant o gynhwysiant ac amrywiaeth lle mae pawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn falch o'u hunaniaeth ac yn gallu cyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Bydd cyflawniad disgyblion yn cael ei fonitro a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi disgyblion, codi safonau a sicrhau addysgu cynhwysol. Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethu trwy fynd ati mewn ffordd gadarnhaol i hybu cydraddoldeb, herio bwlio a stereoteipiau a chreu amgylchedd sy'n hyrwyddo parch tuag at bawb. Yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant, rydym ni'n credu bod amrywiaeth yn gryfder a ddylai gael ei barchu a'i ddathlu gan bawb sy'n dysgu, yn addysgu ac yn dod ar ymweliad yma.

At Ysgol Gymraeg Sant we are committed to ensuring equality of education and opportunity for all pupils, staff, parents and carers receiving services from the school, irrespective of disability, race, gender, age, sexual orientation, religion or belief, gender reassignment, pregnancy and maternity, marriage and civil partnership. We aim to develop a culture of inclusion and diversity in which all those connected to the school feel proud of their identity and able to participate fully in school life.

The achievement of pupils will be monitored and we will use this data to support pupils, raise standards and ensure inclusive teaching. We will tackle discrimination by the positive promotion of equality, challenging bullying and stereotypes and creating an environment which champions respect for all. At Ysgol Gymraeg Dewi Sant, we believe that diversity is a strength, which should be respected and celebrated by all those who learn, teach and visit here.

O dan y ddyletswydd gyffredinol, rhaid i Ysgol Gymraeg Dewi Sant anelu at

- ◆ Ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon
- ◆ Hyrwyddo cyfle cyfartal
- ◆ Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol

Under the general duty Ysgol Gymraeg Dewi Sant will aim to

- ◆ Eliminate unlawful racial discrimination
- ◆ Promote equal opportunities
- ◆ Promote good relations between people from different racial groups.



CYFEILLION DEWI SANT/PARENT-TEACHER ASSOCIATION (PTA)

Mae gennym Gymdeithas Rhieni gweithgar dros ben. Ei phrif nôd ydy codi arian sydd yn galluogi'r ysgol i brynu adnoddau a hefyd darparu profiadau ychwanegol. Maent yn cynnal gweithgareddau amrywiol drwy gydol y flwyddyn. Yn y gorffennol maent wedi prynu offer i'r ardaloedd allanol, llyfrau, talu am dripiâu i'r theatr ac offer technoleg gwybodaeth. Ond er mwyn i'r gymdeithas barhau gyda'i gwaith mae angen eich cymorth ac felly os allwch gyfrannu mewn unrhyw ffordd cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth.

We have a very active Parent - Teacher Association. Its main role is fundraising, thus enabling the school to buy equipment and provide additional activities, which may not otherwise be possible. To this end the PTA holds events throughout the year. It has paid for theatre trips, equipment for the outdoor areas, library books and I.T. resources. But in order for the Association to continue its good work it needs your support. Therefore, if you feel that you could contribute in any way, please contact the school and we will put you in touch with a PTA member.

Sut i gysylltu/How to get in touch

Instagram: ysgoldewisantpta

Facebook: Ysgol Dewi Santa PTA



CINIO YSGOL / SCHOOL DINNERS

Mae holl ddisgyblion oed cynradd Bro Morgannwg bellach yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae hon yn fenter gan Lywodraeth Cymru sydd wedi bod o fudd i holl ddisgyblion yr ysgol.

Darperir prydau yn yr ysgol gan The Big Fresh Company sy'n darparu bwydlenni maethlon cytbwys i ddisgyblion eu mwynhau ar draws yr awdurdod. Mae bwydlenni'n rhedeg ar gylchred o 3 wythnos ac mae gwybodaeth a darpariaeth am alergeddau ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd eu hangen.

Mae'n ofynnol i rieni archebu pryd eu plentyn ymlaen llaw gartref trwy ParentPay. Gellir archebu prydau hyd at 3 wythnos ymlaen llaw. Gwnewch yn siŵr bod pob pryd yn cael ei archebu erbyn 8.00am y bore hwnnw a bod eich plentyn yn ymwybodol o'r hyn y mae wedi'i archebu.

All Primary age pupils in the Vale of Glamorgan now receive free school meals. This is a Welsh Government initiative that has benefitted all pupils in the school.

Meals are provided in school by The Big Fresh Company who provide nutritionally balanced menus for pupils to enjoy across the authority. Menus run on a 3-week cycle and allergen information and provision is readily available for those that require.

Parents are required to order their child's meal in advance at home via ParentPay. Meals can be ordered up to 3 weeks in advance. Please make sure that all meals are ordered by 8.00am that morning and that your child is aware of what they have ordered.



CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL/COMMUNITY LINKS

Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau da iawn gyda busnesau ac asiantaethau lleol gan gynnwys y llyfrgell, Y ganolfan hamdden a siopau lleol. Mae gan yr ysgol gysylltiad agos hefyd gyda chapeli agos ac wedi bod yn rhan o agoriad swyddogol Capel Galilea.

The school enjoys very good community links with various local firms and agencies which include the library, leisure centre, and other local shops. The school also has strong links with local churches having been part of the opening of the Galilee chapel.

Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio gydag ysgolion eraill o fewn yr ardal ac mae'r staff yn barod iawn i weithio ar y cyd i gymedroli gwaith. Mae cyfarfodydd pontio yn cael eu cynnal yn flynyddol. Hefyd fe drefnir tripiâu preswyl ar gyfer disgyblion sydd yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

The school also has close links with other schools within the cluster and staff work closely together to moderate standards of work. Regular meetings take place in order to ensure a smooth transition from Primary to Secondary and residential trips for pupils moving from year 6 - 7 are also organised.

Mae heddwys y gymuned, nyrs yr ysgol, tîm o Gynllun Gwen Iach, Diogelwch ar y Ffordd, Gwylwyr y Glannau a'r Gwasanaeth dân yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i siarad gyda'r plant am gadw'n ddiogel ac iach.

The community policeman, school nurse, dental nurse, Road Safety team, Coastguard and Fire Service visit the school on a regular basis to talk to the children about keeping safe and healthy.



LLAIS Y DISGYBL / THE PUPIL VOICE

Bob blwyddyn, dewisir disgyblion o bob dosbarth, i ffurfio'r "Cyngor Ysgol". Nod y tîm hwn yw annog pob disgybl i helpu i wneud ein hysgol yn lle cyfeillgar a gofalggar. Maent yn gofalu am ddisgyblion eraill ar y buarth, yn eu hannog i chwarae yn y Gymraeg ac yn trefnu digwyddiadau i godi arian.

Each year, pupils are chosen from each class, to form the "School Council". The aim of this team is to encourage all pupils to help make our school a friendly and caring place. They look after other pupils on the playground, encourage them to play in Welsh and organize fund raising events.

Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn hyrwyddo bwyta'n iach fel rhan o Gyngor Ysgolion Iach yr Ysgol. Maent yn cydweithio at gyrraedd safonau at gamau cynnydd Ysgolion Iach.

Pupils have also been proactive in promoting healthy eating and lifestyle as part of the Healthy Schools' Council. They are currently working on reaching the standards and progress points of the Healthy Schools' programme.

Mae ein Cyngor Eco yn mynd o nerth i nerth ac yn adeiladu ar lwyddiannau bob blwyddyn. Yn 2020 fe gyflawnwyd y drydedd Faner Werdd ac rydym yn gweithio tuag at y cam nesaf sef i ennill y Faner Platinwm. Mae disgyblion yn cael eu hethol ac yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda staff gan gynnwys y gofalydd er mwyn sicrhau fod popeth yn cael ei wneud i ddathlu cynaladwyedd. Rydym ar hyn o bryd yn ail gylchu gardfwrdd, papur a phlastig ac yn gosod bwyd gwastraff yn ein bin compost. Rydym wedi cynnal diwrnodau Eco bob blwyddyn er mwyn atgoffa plant am bwysigrwydd ail gylchu. Yn 2018 dileuwyd y defnydd o boteli bach o laeth er mwyn lleihau ar y defnydd o blastig gan gynnwys gwellt.

Our Eco Committee has gone from strength to strength and has built upon its success. In 2020 we gained our third Green Flag and we are working towards the next award which is the Platinum Flag. Pupils are chosen by their peers and hold regular meetings with school staff including the caretaker to ensure that everything is being done to promote sustainability and a "greener school". We currently re-cycle cardboard, paper and plastic and place vegetable waste from the kitchen and our lunch boxes in our compost bins for use in the school gardens. We have held Eco days to also help to promote and maintain the importance of global citizenship. In 2018 the school ended its use of small milk bottles in order to cut back on its use of plastic and eradicate the use of straws.

Rydym yn gobeithio y cawn y cyfle i'ch croesawi chi a'ch plentyn i'r ysgol ac yn edrych ymlaen at bartneriaeth hir a llewyrchus. / We hope that we are able to welcome you and your child to our school community and look forward to a long and successful partnership.

